



cta

community transport association

CYMDEITHAS CLUDIANT CYMUNEDOL

Canllawiau 'Sut i Wneud'

Datblygu eich cais am gyllid

Cenhadaeth a Gwerthoedd

Bydd y canllawiau hyn yn ddefnyddiol i: Ddarparwyr cludiant cymunedol o bob maint sy'n ystyried rhoi cais am gyllid at ei gilydd

Cynnwys

- Cyflwyniad.....2
- Eich syniad am brosiect.....2
- Gweithio mewn partneriaeth2
- Ymchwilio i ddarpar gyllidwyr3
- Siarad â'r cyllidwr am eich prosiect.....3
- Y ffurflen gais.....4
- Cynnwys cyllideb gyda'ch cais5
- Cymeradwyo'ch ffurflen gais yn derfynol5
- Cefnogaeth a chymorth pellach5
- Cysylltu Cymunedau yng Nghymru6

Cyflwyniad

Pwrpas y canllaw hwn yw cynorthwyo Mudiadau Cludiant Cymunedol a grwpiau cymunedol a rhanddeiliaid eraill i ddatblygu ceisiadau effeithiol am gyllid er mwyn sicrhau arian i helpu i greu, llunio a datblygu eu hatebion eu hunain ym maes cludiant. Mae'r canllaw yn amlinellu'r camau cyntaf y mae angen eu cymryd i helpu i ganfod cyllidwyr addas, yn egluro sut y gall gweithio mewn partneriaeth ei gwneud yn fwy tebygol y byddwch yn llwyddo, ac yn disgrifio sut i ddatblygu a chwblhau cais am gyllid ar gyfer prosiect o'ch dewis.

Eich syniad am brosiect

Er mwyn sicrhau cyllid ar gyfer eich prosiect, mae'n bwysig eich bod yn cyflwyno achos cryf dros gael cymorth. Mae tîm Cysylltu Cymunedau yng Nghymru wedi datblygu adnodd cyflwyno ar 'Ddatblygu achos dros gael cymorth' a gallwch weld hwn yn ctauk.org/cciw-resources.

Ar gyfer prosiect sy'n cynnig ffordd newydd, arloesol o weithio neu ar gyfer model sydd wedi'i brofi ac wedi ennill ei blwyf, rhaid eich bod yn gallu dweud wrth y cyllidwr **sut rydych chi'n gwybod bod angen amlwg am eich prosiect**. Gyda phwy rydych chi wedi ymgynghori a sut? e.e. holiadur neu grŵp ffocws. Pryd digwyddodd eich gwaith ymgynghori? Faint o bobl wnaeth gymryd rhan? Beth oedd canlyniad y gwaith ymgynghori hwn? Bydd angen i chi weithio gyda'ch cymuned i geisio atebion i gwestiynau o'r math yma er mwyn dangos i gyllidwyr y bydd eich prosiect yn dod â budd i ddefnyddwyr gwasanaeth unigol ac i'r gymuned ehangach.

Mae cyllidwyr, yn enwedig Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, yn rhoi pwyslais mawr ar ddangos y budd a ddaw o brosiect ac mae esbonio sut rydych chi wedi mynd ati i ddangos angen trwy eich gwaith ymgynghori yn hanfodol er mwyn cael llwyddiant.

Gweithio mewn partneriaeth

Mae gweithio mewn partneriaeth gyda rhanddeiliaid a sefydliadau yn ffordd wych o ddatblygu cais am gyllid a chyflawni prosiect. Nid yw'r cyllid sydd gan gyllidwyr yn ddi-ben-draw, felly mae'n gwneud synnwyr i Ddarparwyr Cludiant Cymunedol a rhanddeiliaid eraill sydd â diddordeb ddod at ei gilydd mewn partneriaeth i ddatblygu un cais am gyllid yn hytrach na chael nifer o gyrff gwahanol yn datblygu cyfres o geisiadau ar wahân. Bydd cais ar y cyd gan bartneriaeth i fynd i'r afael â rhwystr cludiant mewn ardal leol, er enghraifft, yn fwy tebygol o lwyddo - trwy ddangos agwedd gyfannol a lleihau'r posibilrwydd y bydd dyblygu.

Mae yna fanteision eraill i weithio mewn partneriaeth wrth ddatblygu eich cais am gyllid. Gallai hynny gynnwys:

- Ystod ehangach o sgiliau a phrofiadau i helpu i ddatblygu cais a darparu'r prosiect cysylltiedig.
- Rhannu'r llwyth gwaith, gan gynorthwyo'r partner arweiniol, yn enwedig pan fydd ceisiadau mawr strategol yn cael eu datblygu.

- Bydd gweithio ar sail partneriaeth amlasiantaeth yn rhoi gorolwg strategol cryf mewn perthynas ag ymdrechion i symud rhwystrau a chefnogi'r rhwydwaith cludiant lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Bydd rhaid i'r bartneriaeth bennu partner arweiniol at ddibenion llenwi'r ffurflen gais a gohebu â'r cyllidwr. Bydd angen i'r partner arweiniol fod yn gyfforddus yn arwain datblygiad y cais am gyllid a'r gwaith o gyflawni'r prosiect ar ran y bartneriaeth. Y partner arweiniol fydd yn gyfrifol yn y pen draw am sicrhau bod y prosiect yn cael ei gyflawni'n llwyddiannus ar amser ac o fewn ei gyllideb, os caiff y cais am gyllid ei gymeradwyo. Mae Canolfan Cydweithredol Cymru (cymru.coop/) yn gallu cynnig cymorth i ddatblygu Cytundeb Partneriaeth ffurfiol neu Femorandwm Dealltwriaeth i helpu cyrff i weithio'n agos ac yn gydweithredol â'i gilydd.

Os bydd partneriaeth yn ymgeisio am gyllid ar gyfer rhannu defnydd cerbydau, byddai'n ddefnyddiol cael protocol rhannu adnoddau sy'n datgan sut bydd y bartneriaeth yn gwneud defnydd o'r cerbyd/cerbydau ar adegau gwahanol ac at ddibenion gwahanol.

Ymchwilio i ddarpar gyllidwyr

Mae ymchwilio i ystod o ddarpar gyllidwyr i'ch prosiect yn bwysig ac, os yn bosib, dylech glustnodi tri darpar gyllidwr y mae eu blaenoriaethau cyllido yn cyfateb yn dda i nodau ac amcanion eich prosiect. I wneud hyn, bydd angen i chi ganfod darpar gyllidwyr i ddechrau. Gall tîm Cysylltu Cymunedau yng Nghymru eich helpu chi i ganfod cyllidwyr addas trwy ddefnyddio ein banc gwybodaeth helaeth ac rydym wedi datblygu adnodd cyflwyno 'Cyn cysylltu â chyllidwr' y gallwch ei weld yn ctauk.org/cciw-resources. Gallwch gael cymorth hefyd gan eich Cyngor Gwirfoddol Sirol, sy'n gallu darparu gwasanaeth canfod cyllidwr.

Unwaith y byddwch wedi canfod darpar gyllidwyr, mae'n bwysig eich bod yn **darllen eu canllawiau cyllido yn ofalus er mwyn sicrhau bod eich mudiad a'ch prosiect yn gymwys i gael cyllid**. Nid oes modd gorbwysleisio pa mor bwysig yw hyn. Trwy ddarllen canllawiau ymgeisio cyllidwyr yn ofalus, byddwch yn gallu dod i ddeall a yw'ch prosiect yn gymwys, gan wella eich siawns o lwyddo yn sylweddol.

Siarad â'r cyllidwr am eich prosiect

Ffordd arall o sicrhau canlyniad llwyddiannus fyddai siarad â darpar gyllidwr cyn datblygu eich cais. Yn y pen draw, gallai hyn arbed amser a lleihau'r risg y bydd eich cais yn aflwyddiannus. Mae'n rhoi cyfle gwych i holi unrhyw gwestiynau a allai fod gennych ar ôl darllen canllawiau ymgeisio'r cyllidwr. Mae'n gyfle hefyd i ddisgrifio a thrafod eich prosiect gyda'r cyllidwr a chlywed eu hadborth a'u barn ynglŷn â pha mor debygol yw'ch cais o fod yn llwyddiannus.

Bydd rhai cyllidwyr, fodd bynnag, yn dweud yn benodol nad oes modd cysylltu â nhw neu ofyn cwestiynau cyn datblygu neu gyflwyno cais am gyllid. Felly, mae'n bwysig eich bod yn ymchwilio'n drylwyr i'r cyfleoedd cyllido o'ch dewis ac yn dewis y cyllidwr cywir ar gyfer eich prosiect.

Y ffurflen gais

Ateb y cwestiwn – wrth i chi lenwi'r ffurflen gais, mae'n hollbwysig eich bod yn ateb y cwestiwn/cwestiynau penodol a ofynnir. Gall fod yn demtasiwn (ac yn aml, fydd ymgeiswyr ddim yn sylweddoli eu bod yn gwneud hyn) i ysgrifennu ateb nad yw'n gysylltiedig â'r cwestiwn sy'n cael ei ofyn. Mae'n bwysig iawn bod atebion yn cael eu llunio sy'n uniongyrchol berthnasol i'r cwestiynau sy'n cael eu gofyn. Mae'n annhebygol y bydd eich cais am gyllid yn llwyddo os nad ydych yn ateb y cwestiynau a ofynnir yn llawn, neu os ydych yn ateb heb roi digon o fanylion mewn perthynas â'r cwestiynau.

Terfynau geiriau – talwch sylw i'r terfynau geiriau y mae rhai cyllidwyr yn eu defnyddio (megis Cronfa'r Loteri Fawr) i gyfyngu ar nifer y geiriau y gallwch eu defnyddio yn eich ateb. Os bydd cyllidwr yn gofyn i chi gadw at nifer penodol o eiriau, meddyliwch am ansawdd yn hytrach na maint eich atebion, gan gofio canolbwyntio ar ateb y cwestiwn.

Dangos sut mae eich prosiect yn cysylltu â blaenoriaethau penodol y cyllidwr – bydd gan lawer o gyllidwyr flaenoriaethau neu themâu penodol. Mewn achos o'r fath, mae'n bwysig eich bod yn datgan yn y ffurflen gais sut bydd eich prosiect yn cyd-fynd â blaenoriaethau neu themâu penodol. Mae'n ddefnyddiol tynnu sylw at y manau ble rydych wedi cyfeirio at flaenoriaethau'r cyllidwr a gwau hynny i mewn i'ch ateb. Yn yr enghraifft isod o ffurflen gais Arian i Bawb Cronfa'r Loteri Fawr, mae 'dod â phobl ynghyd ac adeiladu cysylltiadau cryf ar draws cymunedau' yn flaenoriaeth benodol. Cyfeiriwyd at hynny a'i ymgorffori yn yr ateb isod:

'Bydd y clwb cinio yn help mawr i roi terfyn ar yr unigrwydd ac arwahanrwydd y mae pobl hŷn yn yr ardal yn eu hwynebu, yn arbennig rhai sydd wedi colli partner neu sydd wedi'u cyfyngu gan salwch neu anawsterau symud. Bydd y prosiect yn gwneud llawer i wella lles pobl hŷn a galluogi pobl i ffurfio cyfeillgarwch sy'n para, ac yn cyfrannu at Flaenoriaeth 1 Arian i Bawb. Dod â phobl ynghyd ac adeiladu cysylltiadau cryf ar draws cymunedau.'

Llofnodi a rhoi dyddiad ar y ffurflen gais – Camgymeriad cyffredin y mae rhai pobl yn ei wneud ydy anghofio llofnodi a rhoi dyddiad ar eu ffurflen gais. Mae llawer o gyllidwyr yn dweud na fydd cais yn cael ei ystyried os nad oes llofnod a dyddiad arno. Mae'n hollbwysig felly eich bod yn prawfddarllen eich dogfen i sicrhau nad ydych wedi hepgor rhywbeth a allai beri i'ch cais fod yn anghymwys.

Cofiwch gynnwys yr holl wybodaeth atodol y gofynnwyd amdani – O fewn y cais am gyllid a/neu'r canllawiau ymgeisio, fe nodir pa ddogfennau/wybodaeth ychwanegol y mae angen eu cyflwyno gyda'r cais. Gallai hynny gynnwys cyfansoddiad eich corff, cyfrifon blyneddol a pholisïau perthnasol e.e. eich polisi amgylcheddol. Mae'n bwysig eich bod yn cynnwys yr holl wybodaeth atodol y gofynnir amdani, oherwydd y gallai ei hepgor fod yn arwydd i'r cyllidwr nad yw'ch corff yn addas i dderbyn grant neu na fyddai'n geidwad digon da ar arian cyhoeddus.

Cyflwynwch eich cais mewn da bryd – Mae'n bwysig rhoi digon o amser i'ch hunan ac i bartneriaeth eich prosiect i gynllunio a ffurfio eich cais gan ystyried unrhyw derfynau amser ar gyfer ymgeisio. Os yw'r cyllidwr wedi nodi dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau, rhowch ddigon o amser i'ch hun i ddatblygu a chyflwyno'ch cais, gan ystyried unrhyw waith ychwanegol y bydd angen i chi ei wneud e.e. cywain adborth i ymgynghoriad cymunedol.

Fel arfer, bydd y cyllidwr yn nodi dull ar gyfer cyflwyno'ch cais, megis trwy e-bost, er enghraifft. Os byddwch yn anfon eich cais i mewn trwy e-bost, gofynnwch am e-bost yn ôl i gadarnhau bod y cais wedi ei dderbyn. Neu os byddwch chi'n anfon eich cais at y cyllidwr trwy'r post, mae'n ddoeth gwneud hynny naill ai trwy bost cofnodedig neu ddsbarthiad arbennig.

Cynnwys cyllideb gyda'ch cais

Wrth ddatblygu eich cyllideb, mae'n bwysig cynnwys **yr holl** gostau fydd yn gysylltiedig â chyflawni eich prosiect a sicrhau bod y costau o dan bob pennawd yn y gyllideb yn realistig ac yn gywir. Er enghraifft, os ydych chi'n ceisio cael cyllid ar gyfer bws mini newydd, rhaid i chi sicrhau bod y pris ar gyfer y cerbyd yn cynnwys yr holl offer angenrheidiol ar gyfer cludo teithwyr sy'n defnyddio cadeiriau olwyn yn ddiogel ac yn gyfreithlon. Felly, byddai angen naill ai lifft neu ramp ar y cerbyd, ynghyd â seddi **y gellir eu tynnu allan** a theclynnau i glymu'r gadair olwyn yn ei lle.

Yn yr un modd, os ydych chi'n chwilio am gyllid ar gyfer gyrrwr bws mini, mae'n bwysig cynnwys yr holl gostau cysylltiedig gan gynnwys y cyflog, yswiriant cenedlaethol, tâl gwyliau a phensiwn ar sail blynyddol a sicrhau eich bod yn darparu'r prosiect ar sail adennill yr holl gostau. Mae gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol awgrymiadau a chynghor da er mwyn sicrhau bod eich prosiect yn sicrhau'r holl gostau sy'n gysylltiedig â chynnal prosiect.

tnlcommunityfund.org.uk/welsh/funding/funding-guidance/full-cost-recovery

Os bydd y cyllidwr wedi gofyn i chi ddefnyddio ffurflen benodol ar gyfer eich costau e.e. taenlen Excel, rhaid i chi gynnwys eich holl gostau ar y daenlen honno. Mae rhai cyllidwyr, ar y llaw arall, yn hapus i chi amlinellu'ch costau mewn modd mwy hyblyg e.e. yng nghorff y prif gais.

Cymeradwyo'ch ffurflen gais yn derfynol

Pan fydd eich cais am gyllid yn gyflawn, mae'n hanfodol eich bod yn prawfddarllen eich cais cyn ei anfon at y cyllidwr. Bydd prawfddarllen eich cais yn sicrhau y byddwch yn cywiro unrhyw lithriadau teipio, yn cynnwys unrhyw wybodaeth newydd a pherthnasol ac yn gwneud unrhyw addasiadau angenrheidiol, gan gynnwys i'r diwyg a'r iaith, ac yn sicrhau bod pob cwestiwn wedi cael ei ateb.

Os ydych chi'n cyflwyno cais partneriaeth, gofynnwch i'ch partneriaid eich helpu i brawfddarllen y cais. Bydd 'pâr arall o lygaid' yn helpu i ganfod unrhyw broblemau ac yn darparu cywiriadau cyn i'r cais am gyllid gael ei gyflwyno.

Cefnogaeth a chymorth pellach

Gan fod pob cais am gyllid yn wahanol, mae'n bosib y byddwch yn dod ar draws materion eraill wrth ddatblygu eich cais nad ydynt yn cael sylw yn y canllaw hwn. Os oes angen rhagor o gymorth neu gefnogaeth arnoch chi, cysylltwch â ni yn:

Cymdeithas Cludiant Cymunedol, Swyddfa De Cymru:

119 Heol Llundain, Castell-nedd. SA11 1LF

Ffôn 01792 844290

Cymdeithas Cludiant Cymunedol, Swyddfa Gogledd Cymru:

Swyddfa 8, Canolfan Fusnes Conwy, Ffordd y Gyffordd, Cyffordd Llandudno. LL31 9XX

Ffôn 01745 356 751

Cysylltu Cymunedau yng Nghymru

Cafodd y canllaw sut i wneud hwn ei lunio fel rhan o brosiect Cysylltu Cymunedau yng Nghymru sy'n cael ei gynnal gan y Gymdeithas Cludiant Cymunedol. Mae'r prosiect yn cael ei gyllido trwy Raglen Cymunedau Gwledig - Datblygu Gwledig 2014-2020 Llywodraeth Cymru, a ariennir gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru. Ei nod yw cefnogi cludiant cymunedol yng Nghymru trwy greu partneriaethau newydd, dod â chyllid i mewn i'r sector a chreu rhwydweithiau cludiant newydd.

Gallwch gael gwybod mwy am Cysylltu Cymunedau yng Nghymru yn ctauk.org/cciw-cymraeg